**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/460/21

21 Ionawr 2021

Annwyl Gyfaill

Hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda ichi, ac rwyf wir yn gobeithio eich bod yn cadw'n ddiogel ac yn iach wrth inni barhau i frwydro yn erbyn pandemig Covid-19.

Fel y gwyddoch, mae cyfnod pontio'r UE bellach wedi dod i ben ac mae'r DU wedi gadael y farchnad sengl ac undeb tollau'r UE. Yn dilyn trafodaethau a llofnodi Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE ar 24 Rhagfyr 2020, mae bellach gan y DU berthynas fasnachu wahanol â'r UE.

Mae Porth Cyfnod Pontio'r UE Busnes Cymru yn ffynhonnell ganolog ar gyfer cyngor ac arweiniad i fusnesau sy'n paratoi ar gyfer y berthynas fasnachu newydd, gan gynnwys gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf.

Daeth rheolau newydd ar gyfer busnesau i rym ar 1 Ionawr 2021. Mae Llywodraeth y DU wedi datblygu dogfennau (ynghlwm) sy'n ymdrin â'r camau y dylai busnesau eu cymryd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau newydd. Mae Rhan A yn rhoi trosolwg o'r camau gweithredu allweddol ar gyfer busnesau yn ogystal â chanllawiau ategol, rhifau llinell gymorth a chwestiynau cyffredin. Mae rhan B yn rhestru'r prif bum cam gweithredu ar gyfer busnesau ym mhob un o'r sectorau canlynol: awyrofod, modurol, cemegion, adeiladu, nwyddau traul, electroneg a pheiriannau, y gwyddorau bywyd, metelau a deunyddiau, gwasanaethau busnes proffesiynol a manwerthu. Rwy'n eich annog i ddarllen y dogfennau hyn yn fanwl.

Mae Llywodraeth y DU wedi datblygu traciwr y gall busnesau ei ddefnyddio i gael rhestr bersonol o gamau gweithredu. Bydd yr offeryn gwirio yn gofyn cwestiynau am eich busnes ac yn darparu'r holl wybodaeth y mae angen ichi fod yn ymwybodol ohoni megis rheolau newydd ar a canlynol:

- Mewnforio ac Allforio
- Symud nwyddau i Ogledd Iwerddon ac oddi yno gan gynnwys y Gwasanaeth Cymorth i Fasnachwyr
- Teithio Tramor i Weithio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Recriwtio Staff o'r UE

Mae nifer o ffyrdd o gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys:

- Cofrestru i dderbyn diweddariadau ar y camau mae angen ichi eu cymryd pan fyddwch wedi defnyddio'r offeryn gwirio yn gov.uk/transition.

- Cofrestru i dderbyn y Bwletin Paratoi Busnesau ar gyfer Pontio yn rheolaidd. Mae hwn yn gylchlythyr sy'n rhoi gwybodaeth am gyhoeddiadau pwysig a chanllawiau sydd wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar.

- Bydd gweminarau BEIS ar draws amrediad o bynciau ar gael yn gov.uk ym mis Ionawr 2021. Byddant yn rhoi cyngor penodol ar sut y gall busnesau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau newydd.

Yn ogystal, mewn perthynas â masnach rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, ar 16 Rhagfyr cynhaliodd Llywodraeth Cymru weminar gyda'r Gwasanaeth Cymorth i Fasnachwyr ar y prosesau ar gyfer yr hysbysiadau sydd eu hangen i fynd i mewn i Weriniaeth Iwerddon a chludo nwyddau ymlaen i Ogledd Iwerddon.  Sefydlwyd y Gwasanaeth Cymorth i Fasnachwyr i baratoi datganiadau ar gyfer symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Rwy'n deall bod hwn yn gyfnod heriol i bawb a hoffwn eich annog i gymryd camau i osgoi problemau posibl ar gyfer gweithrediadau eich busnes.  I gael rhagor o gymorth neu gyngor busnes defnyddiwch Linell Gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000.  Os oes angen, gall ein Cynghorwyr Masnach Ryngwladol arbenigol roi cyngor arbenigol wedi'i deilwra ar unrhyw faterion masnachu mwy cymhleth yr ydych yn eu hwynebu.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales